

anthem.

Ydych chi rhwng 16 a 24 oed ac yn seiliedig yng Nghymru, ac oes gennych chi ddi-ddordeb mewn cerddoriaeth o unrhyw genre? Ydych chi eisiau gwneud gwahaniaeth a helpu i greu llwybrau i bobl ifanc i gael i mewn i gerddoriaeth? Mae yna rôl i chi ar ein Fforwm Ieuencid.

RÔL FFORWM IEUENCTID ANTHEM

Manylion y Swydd: swydd lawrydd, yn gweithio gartref

Cyflog: yn talu ar gyfradd sy'n gyfwerth â £10 yr awr

Ymrwymiad Amser: 2 awr bob yn ail wythnos, yn cyfarfod ar Zoom ynghyd â 3 chyfarfod wyneb yn wyneb. Cyfanswm o 36 awr wedi'i wasgaru rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr 2022.

Dyddiad Cau: 12pm ddydd Gwener 4ydd Chwefror 2022

Cyfweliadau: Dydd Mercher 16eg a dydd Iau 17eg Chwefror 2022

1. YNGLŶN AG ANTHEM

Mae Anthem. Cronfa Gerdd Cymru Music Fund Wales yn elusen newydd a sefydlwyd yn 2018.

Ein gweledigaeth – Cymru lle gall cerddoriaeth rymuso pob bywyd ifanc.

- Credwn fod cerddoriaeth yn rym creadigol nerthol i bobl ifanc sy'n ysgogi hunanfyneiant, datblygiad personol a llesiant.
- Rydym yn creu cyfleoedd ar draws genres a chymunedau ac yn meithrin talent amrywiol i gymryd y camau nesaf mewn cerddoriaeth.
- Rydym yn gatalydd ar gyfer cerddoriaeth ieuencid yng Nghymru, gan ariannu gwaith a fydd yn creu newid, yn creu cysylltiadau i ehangu gwaith partneriaeth, ac yn galluogi arferion gorau i ffynnu.

2. BETH YW FFORWM IEUENCTID ANTHEM?

Mae Anthem yn teimlo'n angerddol ynglŷn â rhoi lle canolog i bobl ifanc yn ein gwaith wrth i ni gymryd ein camau nesaf. Yn dilyn llwyddiant Fforwm Ieuencid cyntaf Anthem yn 2021, mae'r Fforwm Ieuencid bellach yn rhan greiddiol o weithgarwch y sefydliad, gan ddod â grŵp o bobl 16 i 24 oed ynghyd, a hwythau'n ymwneud â cherddoriaeth ar draws genres yng Nghymru.

Dyma sydd gan rai o aelodau blaenorol y Fforwm Ieuencid i'w ddweud:

'Mae bod yn rhan o'r Fforwm Ieuencid yn ffordd hwyliog ac anffurfiol i ddod i gyswllt â cherddorion ifanc eraill neu bobl sy'n gweithio yn y diwydiant cerddoriaeth.'

'Roedd y Fforwm Ieuencid yn gyfle gwych i gael eich clywed, a chael siarad go iawn am yr hyn sy'n cyfri am gerddoriaeth a pham ei fod yn bwysig.'

'Drwy'r Fforwm Ieuencid, fe wnaethom ni gael cymaint o gyfleoedd eraill, fel creu ffilmiau byr, blogiau a threfnu digwyddiad cerddoriaeth ar-lein. Roedd yn llawer o hwyl.'

Dyma'r math o bethau y bydd gofyn i chi wneud fel rhan o'r Fforwm Ieuencid:

- Gweithio gyda Rheolwr Prosiect Fforwm Ieuencid Anthem i archwilio teithiau drwy gerddoriaeth i bobl ifanc yng Nghymru. Mae eich barn yn bwysig ac rydym ni eisiau clywed beth sydd gennych chi i'w ddweud!
- Ein helpu i ddylunio Porth Digidol newydd, sy'n llawn o gyfleoedd a llwybrau i mewn i gerddoriaeth ledled Cymru.
- Creu podlediadau ac ysgrifennu blogiau, gan rannu eich barn ar addysg cerddoriaeth a chyfleoedd gyrfa yn y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru.
- Cyfrannu at a chynnal SUMMIT, cynhadledd cerddoriaeth sy'n cael ei chynnal ar y cyd â Forte Music.
- Byddwn yn gwahodd siaradwyr gwadd o bob rhan o'r diwydiant i siarad am bynciau sydd o ddiddordeb i chi.
- Cymryd rhan gydag chyfryngau cymdeithasol Anthem, yn cyfathrebu ac yn creu ffilmiau byr.

3. AM BWY YDYN NI'N CHWILIO?

Rydym yn chwilio am bobl sydd ag angerdd am gerddoriaeth. Efallai eich bod yn gerddor gweithgar, yn dyheu i fod yn gerddor, yn astudio cerddoriaeth, yn gerddor ystafell wely, yn

weithiwr cerddoriaeth proffesiynol ar gam cynnar yn eich gyrfa, yn wrandawr brwd, yn ysgrifennu, blogio neu flogio am gerddoriaeth, neu'n rhywun y mae cerddoriaeth yn gwneud gwahaniaeth i chi.

Bydd hefyd angen i chi fodloni'r canlynol:

- Bod yn seiliedig yng Nghymru
- Bod yn gyfarwydd â phlatfformau'r cyfryngau cymdeithasol a zoom
- Ymrwymo i fynychu cyfarfodydd
- Bod â mynediad i'r rhyngrwyd

4. BETH ALL Y PROSIECT EI WNEUD I CHI?

Dyma rai o'r manteision i chi o ymuno â'r Fforwm Ieuencid:

- Eich helpu i wneud cysylltiadau ar draws y sector cerddoriaeth yng Nghymru
- Rhoi profiad i chi o sut i greu dyluniad
- Rhoi profiad i chi o greu flogiau personol
- Cynnig cyfleoedd gan gynnwys arwain digwyddiad ar-lein

5. DYDDIADAU'R CYFARFODYDD

Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn cyfnodau o 2 awr bob yn ail wythnos gan gychwyn ar 7fed Mawrth 2022.

I gymryd rhan, mae angen i chi ymrwymo i fynychu sesiynau ar y dyddiadau yma:

BLOC Y GWANWYN

Dydd Mawrth 8fed Mawrth 2022	Zoom
Dydd Mawrth 22ain Mawrth 2022	Sesiwn wyneb yn wyneb, i'w gadarnhau
Dydd Mawrth 5ed Ebrill 2022	Zoom
Dydd Mawrth 19eg Ebrill 2022	Zoom
Dydd Mawrth 3ydd Mai 2022	Zoom
Dydd Mawrth 17eg Mai 2022	Zoom
Dydd Mawrth 31ain Mai 2022	Zoom
Dydd Mawrth 14eg Mehefin 2022	Zoom
Dydd Mawrth 28fed Mehefin 2022	Zoom
Dydd Mawrth 12fed Gorffennaf 2022	Wyneb yn wyneb

BLOC YR HYDREF

Dydd Mawrth 6ed Medi	Zoom
Dydd Mawrth 20fed Medi	Zoom

Dydd Mawrth 4ydd Hydref	Zoom
Dydd Mawrth 18fed Hydref	Zoom
Dydd Mawrth 1af Tachwedd	Zoom
Dydd Mawrth 15fed Tachwedd	Zoom
Dydd Mawrth 29ain Tachwedd	Zoom
Dydd Mawrth 13eg Rhagfyr	Wyneb yn wyneb

6. SUT I WNEUD CAIS

Llenwch ein ffurflen gais drwy glicio ar y ddolen ganlynol:

<https://airtable.com/shrC4xEBj3dbT6hVr>

Yn y ffurflen, bydd gofyn i chi ddweud rhywfaint o'r canlynol wrthym ni:

- pwy ydych chi a beth ydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd
- pam fod gennych chi angerdd am gerddoriaeth yng Nghymru
- beth yw eich profiadau mewn cerddoriaeth
- pam eich bod chi eisiau gweithio gydag Anthem
- anfon geirda i ni gan rywun sy'n eich adnabod neu sy'n gweithio gyda chi, yn dweud pam eu bod nhw'n meddwl y dylech chi fod yn rhan o'r Fforwm Ieuencid.

Mae yna opsiwn i lanlwytho dolen fideo, felly os byddai'n well gennych chi sôn wrthym ni amdanoch eich hun drwy greu fideo byr, gallwch gynnwys dolen a llenwi blychau'r ffurflen gais drwy ysgrifennu: 'gwylwch fy fideo, os gwelwch yn dda'.

Dyddiad cau cyflwyno ceisiadau yw **12pm dydd Gwener 4ydd Chwefror 2022**.

7. Y CAMAU NESAF

- Cewch wybod a ydych chi'n cael eich gwahodd i gyfweiliad erbyn dydd Mawrth 8fed Chwefror 2022
- Caiff y cyfweiliadau eu cynnal ar ddydd Mercher 16eg Chwefror a dydd Iau 17eg Chwefror 2022 ar-lein drwy zoom

Rydym eisiau ei gwneud mor hawdd â phosib i chi i wneud cais am y rôl hon ac rydym yn arbennig yn croesawu ceisiadau gan rai sydd wedi'u tangynrychioli yn y diwydiant cerddoriaeth. Os oes gennych chi unrhyw anghenion mynediad yr hoffech i ni eu rhoi yn eu lle i'ch galluogi chi i ymuno â'r Fforwm Ieuencid, cysylltwch ag Åsa Malmsten drwy anfon e-bost i

projectmanager@anthem.wales

Mae Anthem Music Fund Wales yn sefydliad dwyieithog. I annog y defnydd o'r Gymraeg yn ystod ein sesiwn, bydd gennym ni gyfieithydd Cymraeg yn bresennol ym mhob sesiwn ar-lein.